## LLYTHYR GAN GADEIRYDD Y BWRDD A'R PRIF WEITHREDWR

Mae'r Sefydliad Brenhinol yn arwain gyda'r gred bod newid bob amser yn bosib ac mae'r agwedd gadarnhaol hon, wedi'i hysbrydoli gan ysgogiad a phenderfyniad Eu Huchelderau Brenhinol, Tywysog a Thywysoges Cymru wedi bod wrth wraidd ymgymryd â rhai o'r heriau cymdeithasol ac amgylcheddol mwyaf sy'n bodoli eisoes. Yn 2024 mae'r ymrwymiad hwn i wneud gwahaniaeth mawr wedi arwain at ddatrysiadau optimistig ac arloesol sydd o fudd i unigolion, cymunedau a chymdeithas.

Gan adeiladu ar lwyfan cyhoeddus ein Penaethiaid a'u grym unigryw i gynnull, mae'r Sefydliad yn ymfalchïo yn dod â phobl ynghyd i greu newid positif. Rydym yn ffurfio partneriaethau gyda phobl anhygoel ar draws cynghreiriau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gynhyrchu grym a syniadau newydd. Ar draws ein prif ardaloedd ffocws - digartrefedd, cadwraeth, plentyndod cynnar a'r gymuned - rydym yn peilota, yn datblygu ac yn darparu rhaglenni hyd yn oed yn fwy llwyddiannus er mwyn creu traweffaith arhosol.

Wrth i'n rhaglen ddigartrefedd **Homewards** ddechrau ar ei hail flwyddyn, mae ei gwaith wedi cynyddu. Bu i bob un o leoliadau arweiniol Homewards - Aberdeen, Bournemouth, Christchurch a Poole, Lambeth, Gogledd Iwerddon, Newport a Sheffield - gyhoeddi eu cynlluniau lleol gan roi camau gweithredu a ffyrdd newydd o feddwl ar waith er mwyn dod â digartrefedd i ben. Mae eu cynlluniau uchelgeisiol i wneud gwell defnydd o ddata yn cynrychioli ffordd newydd o feddwl ym maes digartrefedd, ac mae pob un ohonynt yn ymgymryd â phrosiect cartrefu arloesol fydd yn adeiladu tai newydd neu'n datgloi tai sydd eisoes yn eu hardal.

Gwyliodd dros 1.8 miliwn o bobl y rhaglen ddogfen mewn dau ran, *Prince William: We Can End Homelessness* a gafodd ei darlledu ym mis Hydref ar ITV, gyda nifer mwy yn gwylio ar Disney + ar draws y byd. Roedd y rhaglen yn dilyn blwyddyn gyntaf Homewards, menter bum mlynedd drawsnewidiol y Sefydliad sy'n ceisio dangos y gallwn, gyda'n gilydd, wneud digartrefedd yn beth prin, byrhoedlog nad yw'n ailadrodd ei hun.

Ffurfiodd Homewards gynghrair gyda Blue Light Card, gan ymestyn eu cynllun gostyngol i'r 60,000 amcangyfrifiedig o bobl sy'n gweithio yn sector digartrefedd y DU. Croesawodd Partneriaeth Homewards hefyd yr ymgynghoriaeth eiddo rhyngwladol Knight Frank, a chwmni cyfreithiol o'r Ddinas, Freshfields, fydd yn ein helpu i ddod o hyd i gyfleoedd cartrefu a'u hwyluso yn y chwe lleoliad.

Parhaodd ymgyrch y Sefydliad yn erbyn masnachu bywyd gwyllt anghyfreithlon, **United for Wildlife**, barhau i fynd i'r afael ag argyfyngau mwyaf difrifol byd natur gyda rhai mentrau o bwys a'i Uwchgyfarfod Byd-eang yn Cape Town ym mis Tachwedd. Yn yr uwchgynhadledd, bu i'r Tywysog William dynnu sylw at waith degau ar filoedd o geidwaid sy'n peryglu eu bywydau yn ddyddiol er mwyn diogelu rhywogaethau gwerthfawr yn Affrica, a chyhoeddodd raglen er mwyn eu darparu gyda phecyn arloesol o gefnogaeth gan gynnwys mynediad at yswiriant bywyd.

Cryfhaodd United for Wildlife ei ymdrechion byd-eang drwy ychwanegu penodau yng Ngorllewin Affrica a'r India lle bydd y sectorau cyhoeddus a phreifat yn dod ynghyd er mwyn targedu rhwydweithiau troseddol. Ym mis Rhagfyr, rhoddodd United for Wildlife ei Dasglu Trafnidiaeth ar waith, wedi'i gefnogi gan ei bartneriaid, Qatar Airways ac Airlink, i ailgyflwyno 1,000 o lemyriaid a chrwbanod i Madagascar a'u hachub rhag y fasnach anifeiliaid anwes anghyfreithlon rhyngwladol.

Parhaodd **Canolfan Plentyndod Cynnar** y Sefydliad gyda'i gwaith unigryw sy'n torri tir newydd, gan gyhoeddi adroddiad sy'n amlinellu'r achos busnes dros flaenoriaethu plentyndod cynnar ac adnabod cyfle gwerth £45.5 biliwn i economi'r DU a allai gael ei ryddhau. Gwnaeth aelodau'r Tasglu Busnes ymrwymiadau sylweddol i'r gwaith hwn wrth symud ymlaen, gan gynnwys cronfa plentyndod cynnar penodol o £5 miliwn gan The Co-Operative Group ar gyfer cymunedau lleol. Roedd uchafbwyntiau eraill yn cynnwys parhau i dreialu ADBB (Alarm Distress Baby Scale), offer sy'n ffocysu ar ymddygiadau cymdeithasol babi er mwyn helpu ymarferwyr a theuluoedd i ddeall yn well sut mae babanod yn mynegi eu teimladau.

Bydd miloedd o blant bob mis yn cael budd o fenter **Traweffaith Cymunedol** y Sefydliad yn Tyne & Wear, lle mae ein partneriaeth gyda Phwll Cymunedol Birtley nawr yn darparu gwersi nofio sydd eu hangen yn fawr. Mae un mewn tri o blant yn gadael addysg gynradd heb fod yn gallu nofio ac mae'r gwaith hwn eisoes wedi arwain at weithgaredd a phartneriaethau eraill yn cael eu ffurfio. Cafodd y prosiect ei lansio gan Ei Uchelder Brenhinol ym mis Hydref, ochr yn ochr gyda'r nofwyr Olympaidd Tom Dean MBE ac Adam Peaty OBE, a'r Paralympiaid Louise Fides a Maisie Summers Newton MBE.

Bu i'n blwyddyn ddirwyn i ben ym mis Rhagfyr gyda'r Gwasanaeth Carolau Nadolig Gyda'n Gilydd dros y Nadolig yn Abaty Westminster, sy'n cael ei arwain gan Dywysoges Cymru a'i gefnogi gan y Sefydliad Brenhinol. Yn ogystal, roedd

y Sefydliad yn falch o sefydlu 15 gwasanaeth ategol ar draws y DU mewn lleoliadau gan gynnwys Cadeirlan Rochester ac Ysbyty'r Royal Cornwall yn Truro.

Roedd thema'r gwasanaeth eleni, gafodd ei wylio gan 3.3. miliwn o bobl ar ITV, yn cwmpasu empathi a charedigrwydd, gyda'r Abaty wedi'i lenwi gyda 1,600 o westeion sydd wedi cefnogi eraill yn eu cymuned. Derbyniodd pob un ohonynt lythyr arbennig gan Ei Huchelder Brenhinol, yn diolch iddynt am ddarparu cysur a gobaith i bobl sydd ei angen fwyaf.

Mae'r cyflawniadau hyn yn bosib oherwydd ymroddiad pawb sy'n gweithio gyda'r Sefydliad: ein staff diflino, ein Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r bobl a'r sefydliadau dirifedi sy'n sefydliadau sy'n partneriaethu gyda ni. Rydym yn cynnig ein diolch i bob un o'r rhain am eu cyfraniad yn 2024 ac yn edrych ymlaen at ein gwaith parhaus gyda'n gilydd yn 2025.

Mae'r Sefydliad yn eithriadol o ddiolchgar i'r Arglwydd Hague, wrth i'w amser fel Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr ddod i ben ym mis Rhagfyr 2024. Yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd mae wedi bod yn hyrwyddwr ysbrydoledig ar gyfer y Sefydliad ac wedi gwneud cyfraniad enfawr ar draws ein rhaglenni. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gydag o yn ei rôl barhaus fel cyd-gadeirydd United for Wildlife ac rydym yn anfon ein dymuniadau gorau iddo ar gyfer ei rôl newydd fel Canghellor Prifysgol Rhydychen.

Edrychwn ymlaen at y dyfodol gyda chryfder a bywiogrwydd a hoffem unwaith eto ddiolch i'w Huchelderau brenhinol Tywysog a Thywysoges Cymru am eu gweledigaeth a'u harweinyddiaeth parhaus.

Simon Patterson
Cadeirydd
Mehefin 2025

Amanda Berry CBE
Prif Weithredwr